TECHDUWP3

# Cynhyrchu dogfennau digidol gwell

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio meddalwedd dogfennau digidol i greu dogfennau cynhwysfawr sy'n seiliedig ar destun gan ddefnyddio dulliau cydweithredol o gynhyrchu dogfennau a chyd-awduro. Mae cynhyrchu dogfennau digidol cydweithredol cynhwysfawr yn gofyn am ddefnyddio ardaloedd storio a rennir a rhaglenni meddalwedd a nwyddau cwmwl sy'n cefnogi cyd-awduro a golygu. Mae hyn yn cynnwys newid gosodiadau diofyn, addasu'r rhyngwyneb i ddefnyddiwr a mewnosod sylwadau a marcio newidiadau mewn dogfennau. Mae'r safon hon ar gyfer y rhai y mae angen iddynt gynhyrchu dogfennau testun cynhwysfawr ar y cyd ac sydd wedi cael eu cyd-awduro yn seiliedig i ddiwallu eu hanghenion eu hunain neu yn rhan o'u dyletswyddau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Newid gosodiadau diofyn i deilwra meddalwedd dogfennau digidol ar gyfer cydweithio a chyd-awduro
2. Gosod priodweddau dogfennau ar gyfer cyd-awduro a rheoli fersiynau
3. Creu, defnyddio ac addasu templedi ar gyfer gwahanol fathau o ddogfennau
4. Cyfuno gwybodaeth o fewn dogfen o ystod o ffynonellau
5. Gosod nodau tudalen mewn dogfen er hwylustod
6. Storio ac adalw ffeiliau dogfennau yn effeithiol, yn unol â chanllawiau a chonfensiynau lleol lle maent ar gael
7. Addasu rhyngwynebau defnyddwyr meddalwedd dogfennau digidol i gefnogi anghenion cydweithio sefydliadol
8. Adolygu dogfennau drwy farcio newidiadau i nodi a derbyn newidiadau
9. Mewnosod a dileu sylwadau ac ymateb iddynt i reoli adborth i gyd-awduron
10. Diffinio, diweddaru a chyhoeddi templedi ac arddulliau dogfennau yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
11. Dewis a defnyddio cynlluniau tudalennau ac adrannau priodol i gyflwyno ac argraffu dogfennau sy'n cynnwys nifer o dudalennau ac adrannau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Sut i ddadansoddi gofynion strwythur ac arddull ar gyfer y ddogfen ddigidol sy'n cael ei chynhyrchu ar y cyd
2. Pa fathau o wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y ddogfen a sut ddylai'r rhain gael eu cysylltu neu ei hintegreiddio
3. Sut i gyfuno ac uno gwybodaeth o feddalwedd arall neu fwy nag un dogfen
4. Cyfrifoldebau pob cyd-awdur
5. Y technegau sydd eu hangen i greu a defnyddio templedi ar gyfer ffurfiau safonol o ddogfen ddigidol a sut i'w cymhwyso
6. Sut i gadw trefn ar reoli fersiynau mewn dogfennau
7. Sut i farcio newidiadau a'u hadolygu
8. Sut i gymharu dogfennau a'u huno i gefnogi'r gwaith o rannu dogfennau a chydweithio
9. Sut i ddefnyddio sylwadau i roi adborth mewn dogfennau cydweithio
10. Sut i ddefnyddio nodweddion adolygu i farcio dogfennau
11. Yr angen i olygu dogfennau mewn ymateb i adborth gan awduron
12. Sut i ddefnyddio nodweddion awtomeiddio i wella effeithlonrwydd
13. Sut i ddefnyddio nodweddion prawfddarllen i wella cywirdeb

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | e-skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ODAG Consultants Ltd. |
| **RCU gwreiddiol** | TECHDUWP3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | TGCh i ddefnyddwyr |
| **Cyfres/Set** | Defnyddwyr TG |
| **Geiriau Allweddol** | Prosesu geiriau |